**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 18 o Hydref 2022 am 19:00 drwy Zoom.</u>**

**<u>Presennol:</u>** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Philip Roberts, Berwyn Parry Jones, Alan Pritchard, Emyr Jones, Anne Lawton, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Beca Brown

**<u>Ymddiheuriadau:</u>** Y Cynghorydd Richard Robinson

**<u>Clerc:</u>** Meirion Jones

**<u>Aelodau o'r Cyhoedd:</u>** Neb

**1034. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd am eu presenoldeb. Estynnwyd croeso cynnes yn arbennig i'r aelodau newydd sef Y Cynghorwyr Gwynedd Williams, Anne Lawton ac Emyr Jones a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf.

**1035 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1036. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1037. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Medi 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y cadeirydd

**1038. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Eitem 1026 – Cwynion wedi derbyn am bobl yn defnyddio biniau yn perthyn i eiddo yn Y Bwlch ac i gysylltu a Cyngor Gwynedd i ofyn am fin ychwanegol yno

**1039. Cyfranogiad y Cyhoedd (os yn bresennol)**

Dim aelod o'r cyhoedd yn presennol

**1040. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Y Cyngor Sir**

**Ardal Ni 2035**

Aeth Avril, Beca a finnau i gyfarfod Ardal Ni 2030 yn Llanberis yn ddiweddar. Teimlad ei fod yn gyfarfod llwyddiannus hefo cynrychiolaeth dda o mudiadau sydd yn y gymuned yn bresennol. Rhannwyd ni i wahanol grwpiau. Es i i'r grŵp oedd yn trafod Tai.

**Canolfan Datgarboneiddio yn Penygroes**

Cafwyd ymweliad yma i weld y gwaith sydd yn mynd ymlaen i droi hen adeilad Norwood yn Penygroes yn ganolfan datgarboneiddio. Mae hwn yn fenter ar y cyd rhwng Cwmni Tai Cymdeithasol Adra, Cwmni Travis Perkins, Cwmni dodrefn Welcome, a'r Brifysgol yn Bangor, i greu hwb arbenigol i ddysgu am ffyrdd newydd o dda carboneiddio ac hefyd i hyfforddi gweithlu ar sut i osod unrhyw offer newydd.

**Sefyllfa ariannol y Cyngor yn heriol ofnadwy**

Y Prif weithredwr wedi ein briffio pa mor ddifrifol ydi y sefyllfa.
Bydd y Cyngor yn gallu ymdopi hefo y gwariant ychwanegol eleni, sydd wedi ei achosi gan chwyddiant, trwy ddefnyddio cronfeydd wrthgefn. Ond bydd rhaid cynllunio arbedion a toriadau at y flwyddyn nesaf, a'r flwyddyn ganlynol.

**Timau Tacluso**

Yn ei lle erbyn hyn, 5 tîm i gyd, 2 yn Arfon, 2 yn Meirionnydd ac un yn Dwyfor.

Adborth da wedi bod ar ôl ymweliad gan y timau. Mae'r swyddogion yn cynllunio amserlen i fynd i bob ward. Nifer o ymweliadau yn y flwyddyn yn dibynnu ar maint y wardiau. Gobeithio erbyn cyfarfod y mis nesaf y bydd hwn yn ei le hefyd.

**Yn Lleol**

Cwynion am geir yn cael eu gadael heb drwydded ac MOT ar waelod Allt Goch eto

Dal i ddisgwyl ymateb gan yr Adran Cynllunio ynglŷn a datblygiadau yn Bryn Teg, ond wedi siarad hefo y swyddog Gorfodaeth, mae o yn edrych i mewn i'r materion ac wedi gaddo dod yn ôl ataf.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1041. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

**1042. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 11 o Hydref 2022 ac fe drafodwyd y canlynol:-

- Fe drafodwyd y gyllideb bresennol, gyda ystyriaeth i wariant fydd yn ddyledus ar y caeau chwarae a'r fynwent.
- Does dim angen pwrcasu goleuadau Nadolig ar gyfer coed Llanrug na Cwm y Glo, dim ond trefnu eu bod yn cael 'PAT test'.
- Mae arian ar gyfer y clwb ieuenctid yn y gyllideb
- Adroddwyd ein bod wedi derbyn archwiliad mewnol beth amser yn ôl ond fod yr archwiliwr allanol wedi cael y dogfennau beth amser yn ôl bellach ond hyn yn hyn ddim wedi derbyn dim byd yn ôl.
- Cyfrif Poor House, i gysylltu a'r elusen i holi am gau'r cyfrif
- Fod y gytundeb torri gwair y fynwent, meysydd chwarae a llwybrau cyhoeddus yn dod i ben eleni ac fod cyfarfod wedi drefnu ar gyfer 26 o Hydref i drafod y tendr ar gyfer y dair blynedd nesaf.
- Adroddwyd fod y coed er cof am y cyn gynghorwyr sef Charles Jones a Brian Jones wedi plannu ac fod angen sedd o'r amgylch gyda plac. Bydd y Cynghorydd Alan Pritchard yn cysylltu a Menter Fachwen i holi am bris i wneud y gwaith.
- Y Cyfarfod nesaf yn y flwyddyn newydd i baratoi'r gyllideb ar gyfer praesept 2023 / 2024

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1043. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod ganddo ddau ddarn o newyddion da ar gyfer cyfarfod heno.

Yn gyntaf, mae mynwent y cyngor wedi ennill gwobr arian am yr ail flynedd yn olynol yn gystadleuaeth mynwent y flwyddyn yn categori ar gyfer mynwentydd i gynghorau cymuned a plwyfi ar draws y Deyrnas Unedig. Cystadleuaeth ydi hon sydd wedi drefnu ar y cyd gan yr 'ICCM - Institute of Cemetery and Crematorium Management', SLCC – Society of Local Council Clerks, MAB - Memorial Awareness Board, BRAMM - British Register of Accredited Memorial Masons.

Mae ennill y wobr yma yn glod aruthrol i gyngor bach fel Llanrug

Yn ail, mae hysbysfwrdd ychwanegol wedi ei archebu ar gyfer y fynwent ac mae Elusen Dyffryn Peris wedi cytuno i'w ariannu drwy grant.

**Penderfynwyd:**

Derbyn a diolch am yr adroddiad a llongyfarch aelodau o bwyllgor y fynwent am eu gwaith i ennill y wobr yma.

Diolch yn fawr iawn i Elusen Dyffryn Peris am eu haelioni a'r clerc i anfon llythyr o ddiolch

**1044. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0884/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Newid tir amaethyddol i gwrtil preswyl
**Ymgeisydd:** Mr Malcolm Jones
**Asiant:** Mr Gareth Rennie (Hafod Planning Consultants)
**Cyfeiriad:** Bryn Dwynwen, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AQ
**Cyfeirnod Grid:** 251846.99, 363388.39
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b) **Rhif y Cais:** C22/0838/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dylunio estyniad deulawr i gymryd lle un presennol. Mynedfa gerbydol newydd i wella llinellau gwelededd. Codi sïed yn lle un bresennol.
**Ymgeisydd:** Corinne & Vito Ricciardi
**Asiant:** Mr Jonathan Huthwaite (Evergreen Architects)
**Cyfeiriad:** Clawdd Cerrig, 2, The Terrace, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DF
**Cyfeirnod Grid:** 255093.06, 362708.87
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**1045. I gymeradwyo i'r cyngor barhau gyda'r cynllun bwyd o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen ac i awdurdodi'r clerc i wneud ceisiadau am unrhyw grantiau perthnasol**

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, fod y cynllun bwyd presennol yn dod i ben ar 30 o Dachwedd 2022. Wedi ymgynghoriad a'r clerc, fe ddaeth cyfle i roi cais i fewn am grant oddiwrth Cist Gwynedd ac yn sgil y prinder bwyd sydd yn dod ar hyn o bryd gan Fareshare penderfynwyd rhoi cais i fewn am uchafswm y bwyd gan Fareshare, gyda'r bwriad os na fydd Fareshare yn gallu cyflawni'r bwyd, yna gall y cyngor ddefnyddio'r grant i bwrcasu bwyd, megis tuniau ayyb, stwff ble gellir eu cadw.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth ac awdurdodwyd y Clerc i wneud ceisiadau am grantiau ar ran y cyngor

**1046. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Hefin Jones ar y sefyllfa ddiweddara ar carffosiaeth.**

Rhoddwyd adroddiad bras o'r sefyllfa er mwyn aelodau newydd y cyngor. Mynegwyd pryder fod Llanrug wedi tyfu'n rhy fawr i'r system garthffosiaeth bresennol, a phryder am erthygl yn Eco'r Wyddfa fod arllwysiadau i'r afon yn achosi niwed i'r amgylchedd. Anfonwyd llythyr at Dwr Cymru yn datgan y pryderai hyn.
Ymatebodd Dwr Cymru trwy ddweud nad oedd eu hasedau yn ardal Llanrug yn peri pryder iddynt. Rhoddwyd hefyd fraslun ganddynt i ni o'r camau a gymerir ganddynt wrth ddelio efo ceisiadau cynllunio er mwyn diogelu'r gymuned a'r amgylchedd.
Mynegwyd yn y Cyngor nad oedd y pryderon am yr arllwysiadau i'r afon Seiont wedi eu tawelu.

**Penderfyniad**: Gwneud cais i gyfarfod a chynrychiolwr o Dwr Cymru ar lan yr Afon Seiont ger safle gwaith trin carthffosiaeth Llanrug.

## 1047. Cais am grant – Llewod Llanrug

Derbyniwyd cais am grant gan Llewod Llanrug.

**Penderfynwyd:** Caniatáu cymorth ariannol o £750 ar gyfer 2022/2023.

Mae’r cyngor yn caniatáu hyn ar yr amod ei fod yn derbyn y wybodaeth canlynol:-

Cadarnhad o bwy sydd yn defnyddio cae Nant y Glyn, ar pa noson a’r amseroedd.

(Byddai yn ddefnyddiol gwybod pa bryd bydd y timau yn peidio defnyddio’r cae ar gyfer ymarfer fel bydd y nosweithiau yn byrhau).

Cadarnhad fod yr hyfforddwyr wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf, fod offer cymorth cyntaf gan yr hyfforddwyr mewn sesiynau hyfforddi ac fod y cymhwyster cymorth cyntaf yn ddilys.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:15

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 15 Tachwedd 2022